**Nodiadau ar lenwi'r ffurflen Ymgeisydd yn Cyrraedd yn Hwyr Iawn**

1. Gallai ymgeisydd sy'n cyrraedd ar ôl dechrau'r arholiad gael caniatâd i fynd i mewn i'r ystafell arholiadau a sefyll yr arholiad. **Y ganolfan sydd i benderfynu ar hyn.**

   **Rhaid** i'r ganolfan rybuddio’r ymgeisydd bod posibilrwydd na fydd y corff dyfarnu’n derbyn ei sgript pan fydd yn cyrraedd yn hwyr iawn i'r arholiad.

2. **Rhaid** caniatáu'r amser llawn ar gyfer yr arholiad i ymgeisydd sy'n cyrraedd yn hwyr ac sy'n cael sefyll gan y ganolfan.

3. Ar gyfer arholiad sy'n fwy nag un awr, nid oes gofyniad i lenwi'r ffurflen hon ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sy'n cyrraedd o fewn un awr ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu.

4. Bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn hwyr iawn os yw'n cyrraedd dros un awr ar ôl amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer arholiad o fwy nag un awr.

5. Ar gyfer arholiadau llai nag un awr, bydd ymgeisydd yn cael ei ystyried yn hwyr iawn os yw'n cyrraedd ar ôl amser gorffen swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.

6. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai canolfannau gyflwyno'r ffurflen hon ar lein i'r corff dyfarnu priodol **o fewn saith diwrnod gwaith i ddyddiad y papur dan sylw**.

7. **Rhaid** i ganolfannau gwblhau'r meysydd canlynol – Manylion y ganolfan, manylion yr ymgeisydd, Corff Dyfarnu, Cymhwyster, Cyfres Arholiadau, Pwnc neu god cydran/uned.

8. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r blwch sydd â'r pennawd 'Amser y daeth yr ymgeisydd o dan oruchwyliaeth staff y ganolfan'.

9. Yn y blwch 'Y rheswm dros fod yn hwyr', nodwch union natur yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ymgeisydd yn cyrraedd yn hwyr. Dylech roi manylion unrhyw drefniadau arbennig a wnaethpwyd i'r ymgeisydd gyrraedd y ganolfan.

10. Yn y blychau priodol, nodwch yr union amser y gwnaeth y ganolfan ddechrau a gorffen yr arholiad, a'r amser y bu i'r ymgeisydd dan sylw ddechrau a gorffen ei arholiad.

11. **Rhaid** i ganolfannau lenwi'r blwch 'Pa mor sicr allwch chi ddweud nad yw'r ymgeisydd wedi gweld cynnwys y papur cyn sefyll yr arholiad?'

12. **Rhaid** anfon y sgriptiau at y corff dyfarnu/arholwr yn y dull arferol.

©CGC 2020 – Yn weithredol o 1 Medi 2020